**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 11AM AR 15 RHAGFYR 2022 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mr Michael Imperato; Mrs Dianne Bevan.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Miss Carys Vaughan (Swyddog Arolygon).

**Yn bresennol o'r tu allan:** Jorren Knibbe (No5 Chambers) ymunodd am 11:17, gadawodd am 12:18.

**Ymddiheuriadau:** Mr Frank Cuthbert.

**Amser Dechrau: 11:07**
**Amser Gorffen: 12:38**

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

## 2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i'r Comisiwn am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022 gyda Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LlC):

- Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r cyfarfod y bu'r ddau ddigwyddiad 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth' a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf yn llwyddiannus. Bydd rhywfaint o'r wybodaeth o'r digwyddiadau'n bwydo i ymateb y Comisiwn i'r Papur Gwyn. Bydd y Prif Weithredwr yn cadeirio digwyddiad arall ar 17 Ionawr 2023. Bydd Elaina yn defnyddio'r wybodaeth o'r digwyddiad hwn ar gyfer ymateb y Comisiwn i'r Papur Gwyn. Bydd y Gweinidog yn rhyddhau datganiad ym mis Ionawr 2023 ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth i ysgogi diddordeb.
- Mae'r gyllideb gyfredol wedi cael ei chadarnhau, a bydd y Comisiwn yn cael £150,000 ychwanegol ar gyfer cyllideb 2023-24.
- Mae'r swydd-ddisgrifiad a manyleb yr unigolyn ar gyfer swydd pumed Comisiynydd ac aelod o'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol (IRP) wedi cael eu diwygio a chaiff y swydd ei hysbysebu yn y flwyddyn newydd.

Bydd y Cadeirydd yn rhannu'r fersiwn derfynol â'r Comisiynwyr. **Nodwyd** bod y swydd IRP ar agor i Gomisiynwyr presennol.

- Cyfarfu'r bwrdd rhaglenni ar gyfer yr IRP unwaith eto yr wythnos hon i drafod prosiectau ymchwil posibl. Roedd yr eitemau a drafodwyd yn cynnwys llety myfyrwyr a thwristiaeth. Mae arian yn y gyllideb i ddechrau'r gwaith ymchwil yn y flwyddyn newydd.
- Gofynnodd y Cadeirydd i Lisa am ddiweddariad ar werthuso swyddi ac mae'n aros am ymateb.
- Derbyniwyd llythyr gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus ar gyfer adolygiad wedi'i deilwra yn 2026. Bydd y Comisiwn yn gofyn i'r adolygiad gychwyn ar ddechrau 2026 er mwyn osgoi unrhyw effaith ar Arolwg y Senedd. Mae Lisa yn cytuno â'r cais a bydd y Prif Weithredwr yn rhoi gwybod i Gadeirydd yr IRP hefyd.
- Bydd y Cadeirydd yn rhannu dogfennau ynglŷn â'r Adolygiad Effeithiolrwydd gyda'r Comisiynwyr. Mae'r dogfennau'n amlinellu'r sefyllfa bresennol a'r cynigion ar gyfer yr IRP. Bydd y Prif Weithredwr yn ychwanegu'r Adolygiad Effeithiolrwydd fel eitem agenda ar gyfer y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ym mis Ionawr.
- Mae LIC wedi cysylltu â'r Prif Weithredwr ynglŷn ag enw parth y Comisiwn. Cytunodd y Prif Weithredwr i drafod hyn gyda Lisa.
- **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i roi gwybod i Gadeirydd yr IRP y bydd y Comisiwn yn gofyn am ddyddiad dechrau yn gynnar yn 2026 ar gyfer yr adolygiad wedi'i deilwra o'r Uned Cyrff Cyhoeddus.
- **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i ychwanegu'r Adolygiad Effeithiolrwydd fel eitem agenda ar gyfer y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ym mis Ionawr.
- **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i drafod enw parth y Comisiwn gyda Lisa.
- **Gweithredu:** Y Cadeirydd i rannu fersiwn derfynol y swydd-ddisgrifiad a manyleb yr unigolyn ar gyfer swydd y pumed Comisiynydd ac IRP gyda'r Comisiynwyr.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 9) –** Adroddodd y Prif Weithredwr fod y Comisiwn wedi cynnal ymarfer recriwtio cadarnhaol ar gyfer rôl Swyddog Cymorth Tîm (parhaol) a'i fod wedi gwneud cynnig i'r ymgeisydd llwyddiannus. Yn amodol ar archwiliadau a geirdaon boddhaol, disgwylir y bydd deiliad y swydd yn ei rôl erbyn canol mis

Ionawr. Roedd ymgeisydd eithriadol arall hefyd, a chynigiwyd contract cyfnod penodol iddo am 12 mis.

**4.3.** **(Mater 6)** – Mae'r Prif Weithredwr wedi anfon sylwadau at LIC ynglŷn ag enwau Cymraeg yn bennaf. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn penderfynu ar enwau a'u hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg i'w cymeradwyo. **Cytunwyd** na fydd y Comisiwn yn cynnal ymgynghoriad ynglŷn ag enwau o ganlyniad i gyfyngiadau amser.

**4.4.** **(Mater 7)** – Edrychodd y Comisiwn ar y llawr uchaf newydd ei adnewyddu ar gyfer cyrff cyhoeddus ym Mharc Cathays 2 (CP2) yr wythnos ddiwethaf ac mae'n aros am fwy o wybodaeth am y safle ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn wedi gofyn i rwystrau gael eu gosod gan fod y lle'n gynllun agored ar hyn o bryd. Hefyd, gofynnodd i weision sifil beidio â chael mynd i'r ardal lle mae mynediad wedi'i gyfyngu i Gyrff Cyhoeddus yn unig. Mae'r Comisiwn yn aros am becyn briffio a chynllun. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Comisiwn fod y mater hwn wedi cael ei godi gyda Lisa yn y cyfarfod ddoe. **Cytunwyd** bod angen i'r Comisiwn gael rhagor o fanylion i wneud penderfyniad gwybodus ac y dylai'r Prif Weithredwr anfon neges e-bost at LIC yn gofyn am y wybodaeth ofynnol a chopïo Elaina a Lisa yn y neges.
Mae'r Comisiwn yn aros am ymateb gan Ethical Property ar ôl i baragraff yn ymwneud â chymrodeddu gael ei ychwanegu at brydles gyfredol y Comisiwn.
**Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i anfon neges e-bost at LIC yn gofyn am y wybodaeth ofynnol am CP2 a chopïo Elaina a Lisa yn y neges.

## 5. Adroddiad ar Gyllideb 2022-23

**5.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chymeradwywyd** y gyllideb hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2022.

**5.2.** **Nododd** y Comisiwn y trosglwyddiadau rhwng y cyllidebau Dŵr Potel a Hurio Gofal Staff i fynd i'r afael â gorwariant bach ar y cyntaf.

**5.3.** **Nodwyd** bod £115,927 o danwariant ar ddiwedd mis Tachwedd, yn bennaf oherwydd bod staff ychwanegol wedi'u recriwtio'n hwyrach na'r bwriad. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi amlygu meysydd gwariant lle y gellir defnyddio rhywfaint o'r tanwariant, gan gynnwys £8,000 ar ddyfeisiau Surface Pro a £2,500 i gaffael Peiriant Ffrancio newydd. Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi rhoi gwybod i'r Is-adran Noddi y bydd rhywfaint o'r tanwariant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau ymchwil yn y flwyddyn newydd.

## 6. Rheoli Risg

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 23 Tachwedd 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

**6.2.** **Nodwyd** na fu unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ers y cyfarfod diwethaf. Ni ystyriwyd bod angen unrhyw newidiadau i'r gofrestr risg bresennol ar hyn o bryd.

**6.3.** **Cytunwyd** i adolygu'r Parodrwydd i Dderbyn Risg yn ystod y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ym mis Ionawr 2023.

## 7. Adnodd Defnyddiol i Asesu Risg (HART) Llywodraeth Cymru

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Tachwedd 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

**7.2.** Fel y **cytunwyd** yn y cyfarfod diwethaf, roedd y Rheolwr Cyllid wedi croesgyfeirio Cofrestrau Risg Corfforaethol a Gweithredol y Comisiwn â'r risgiau ar y Gofrestr Risg HART. Roedd risgiau na ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r Comisiwn wedi cael eu dileu o'r gofrestr risg HART tra bod y rhai hynny yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r Comisiwn, er hynny gyda thebygolrwydd isel, wedi cael eu hychwanegu at y Gofrestr Risg Weithredol.

**7.3.** Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cwtogi'r gofrestr risg HART i un Tabl Asesu Risgiau yn hytrach na dau, a bod y gofrestr risg newydd wedi cael ei llenwi â'r risgiau gwreiddiol a amlygwyd heblaw am y risgiau hynny na ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r Comisiwn, fel y nodwyd ym mharagraff 7.2 uchod.

**7.4.** Roedd y Comisiwn o'r farn bod y risgiau a'r sgorau risgiau ar y gofrestr risg HART yn gywir. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn rhannu risgiau a sgorau risgiau unigol ar gyfer pob maes risg â'r Is-adran Noddi yn y cyfarfod cyswllt yn gynnar ym mis Rhagfyr.

## 8. Adroddiad ar Gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2022

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Tachwedd 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nododd** y Comisiwn ganlyniad y Pwyllgor Archwilio.

**8.2.** **Cytunodd** y Comisiwn i amlygu meysydd ar gyfer ymchwil fanwl yn ystod y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ym mis Ionawr 2023 cyn penderfynu p'un a fyddai'r Comisiwn neu'r ARAC yn gyfrifol am yr ymchwil.

**8.3.** **Nodwyd** bod yr ARAC wedi ystyried yr Adroddiad Archwilio Mewnol ar yr archwiliad o Reolaethau Ariannol Allweddol a bod sgôr sicrwydd Sylweddol wedi cael ei rhoi ac ni wnaed unrhyw argymhellion archwilio.

## 9. Trafodaeth ynglŷn â Phapur Gwyn LIC

**9.1.** Croesawodd y Cadeirydd Jorren Knibbe i'r cyfarfod a rhoddodd Aelodau'r Comisiwn gyflwyniadau i'w rolau.

**9.2.** Trafodwyd ymateb y Comisiwn i'r Papur Gwyn, a **chytunwyd** y byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn gwneud mân ddiwygiadau cyn i'r fersiwn derfynol gael ei rhannu gyda'r Comisiynwyr.

**9.3.** **Gweithredu:** Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i wneud mân ddiwygiadau i'r ymateb i'r Papur Gwyn a rhannu fersiwn derfynol yr ymateb gyda'r Comisiynwyr.

## 10. Calendr Digwyddiadau

**10.1.** **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

**10.2.** **Nodwyd** y bydd y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2023. **Cytunodd** y Prif Weithredwr i lunio agenda ar gyfer y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd a gofynnodd i Aelodau'r Comisiwn anfon eitemau agenda posibl ar gyfer y digwyddiad. **Nodwyd** bod yr Adolygiad Effeithiolrwydd a'r Gofrestr Risg wedi'u cynnwys ar yr agenda ddrafft.

**10.3.** **Gweithredu:** Aelodau'r Comisiwn i anfon eitemau agenda posibl ar gyfer y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd at y Prif Weithredwr. Y Prif Weithredwr i lunio agenda ar gyfer y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd.

## 11. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

**11.1.** Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 18 Ionawr 2023**